# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
# IS-DDEDDFAU

## Aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis

Is-ddeddfau i wneud yn siŵr bod y canlynol yn lân: mangreoedd sydd wedi eu cofrestru o dan adrannau 14(2) neu 15(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 neu o dan y ddwy adran hynny; ffitiadau mewn mangreoedd o'r fath; pobl sydd wedi eu cofrestru o dan adrannau 14(1) neu 15(1) o'r Ddeddf, neu o dan y ddwy adran hynny; a phobl sy'n eu cynorthwyo; ac er mwyn sicrhau bod offer, deunyddiau a chyfarpar sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad ag ymarfer aciwbigo neu fusnes tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis yn cael eu glanhau ac, i'r graddau y mae hynny'n briodol, yn cael eu sterileiddio, a'r rhain yn is-ddeddfau sydd wedi eu gwneud gan **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** yn unol ag adrannau 14(7) neu 15(7) o'r Ddeddf neu'n unol â'r ddwy adran hynny.

**1) Dehongli**

(i) Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "anifail" yw unrhyw ymlusgiad, mamal, a phob creadur byw arall sy'n perthyn i fyd yr anifeiliaid;

ystyr "cleient" yw unrhyw un sy'n cael triniaeth;

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982;

ystyr "gweithredwr" yw unrhyw un sy'n rhoi triniaeth, gan gynnwys perchennog;

ystyr "mangre" yw unrhyw fangre sydd wedi ei chofrestru o dan adrannau 14(2) neu 15(2) o'r Ddeddf;

ystyr "man trin" yw unrhyw ran o fangre lle y mae triniaeth yn cael ei rhoi i gleientiaid;

ystyr "offeryn tyllu hylan" yw offeryn y mae unrhyw ran ohono sy'n cyffwrdd â chleient wedi ei wneud i'w defnyddio ar gyfer cleient unigol, a hwnnw'n offeryn sterilaidd, tafladwy ac sydd wedi ei osod â gemwaith tyllu a ddarparwyd mewn deunydd pacio sy'n dangos ar gyfer pa ran o'r corff y mae wedi ei fwriadu, ac sydd wedi ei ddylunio i dyllu naill ai—

(a) y llabed,

(b) cartilag gwastad uchaf y glust, a/neu

(c) y naill ochr neu'r llall i'r trwyn yn rhan ganol y rhych uwchben y ffroen;

ystyr "perchennog" yw unrhyw un sydd wedi ei gofrestru o dan adrannau 14(1) neu 15(1) o'r Ddeddf;

ystyr "triniaeth" yw unrhyw weithred i wneud gwaith aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis.

(ii) Mae Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i ddehongli'r is-ddeddfau hyn fel y mae'n gymwys i ddehongli Deddf Seneddol.

*Glendid mangreoedd a ffitiadau*

**2)** Er mwyn sicrhau glendid mangre a ffitiadau yn y fangre honno, rhaid i berchennog wneud yn siŵr—

(i) bod unrhyw wal fewnol, drws, ffenestr, pared, llawr, gorchudd llawr neu nenfwd yn cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr digon da i ganiatáu iddynt gael eu glanhau'n effeithiol;

(ii) bod unrhyw ddeunydd gwastraff, neu ysbwriel arall sy'n deillio o driniaeth yn cael ei roi, yn union ar ôl ei ddefnyddio, mewn cynhwysydd gwastraff priodol ac iddo gaead sy'n cael ei weithredu â phedal, a'i drafod a'i waredu'n unol â deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau perthnasol yn ôl cyngor yr awdurdod lleol;

(iii) bod unrhyw nodwydd, rasel [raser] neu unrhyw eitem finiog arall a gafodd ei defnyddio yn ystod y driniaeth yn cael ei gwaredu mewn cynhwysydd cyfarpar miniog sy'n cael ei gadw allan o gyrraedd cleientiaid a'r cyhoedd yn unol â deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau perthnasol yn ôl cyngor yr awdurdod lleol;

(iv) bod unrhyw ddodrefn neu ffitiad yn y fangre yn cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr digon da i ganiatáu iddynt gael eu glanhau yn effeithiol;

(v) bod gan unrhyw fwrdd, cowtsh neu sedd a gaiff ei ddefnyddio neu ei defnyddio gan gleient yn y man trin ac a all gael ei halogi â gwaed neu hylifau corfforol eraill, ac unrhyw wyneb y mae nodwydd, offeryn neu gyfarpar yn cael ei roi neu ei rhoi arno yn union cyn y driniaeth, wyneb anhydraidd llyfn sy'n cael ei lanhau a'i ddiheintio—

   (a) yn union ar ôl ei ddefnyddio neu ei defnyddio; a

   (b) ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.

(vi) bod unrhyw fwrdd, cowtsh neu ddodrefnyn arall a gaiff ei ddefnyddio mewn triniaeth yn cael ei orchuddio â dalen bapur dafladwy sy'n cael ei newid ar gyfer pob cleient;

(vii) na fydd unrhyw fwyta neu yfed yn cael ei ganiatáu yn y man trin a bod hysbysiad neu hysbysiadau sy'n dweud "Dim Bwyta nac Yfed" yn cael ei arddangos neu eu harddangos mewn lle amlwg yno;

(viii) bod anifeiliaid yn cael eu gwahardd o'r fangre ac eithrio anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio gan bobl â nam ar eu golwg ac/neu ar eu clyw.

**3)** (i) Yn ddarostyngedig i Is-ddeddf 3(ii), pan fydd mangre wedi ei chofrestru o dan adrannau 14(2) (aciwbigo) neu 15(2) (tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) o'r Ddeddf, rhaid i'r perchennog sicrhau bod triniaeth yn cael ei rhoi mewn man trin sy'n cael ei ddefnyddio'n unswydd i roi triniaeth;

(ii) Ni fydd Is-ddeddf 3(i) yn gymwys os yr unig driniaeth sydd i'w rhoi mewn mangre o'r fath yw tyllu llabed neu gartilag gwastad uwch y glust gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan.

**4)** (i) Yn ddarostyngedig i Is-ddeddf 4(ii), pan fydd mangre wedi ei chofrestru o dan adran 15(2) (tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) o'r Ddeddf, rhaid i'r perchennog sicrhau bod gan lawr y man trin wyneb anhydraidd llyfn;

(ii) Ni fydd Is-ddeddf 4(i) yn gymwys os yr unig driniaeth sydd i'w rhoi mewn mangre o'r fath yw (a) tyllu llabed neu gartilag gwastad uchaf y glust gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan; ac/neu (b) electrolysis.

*Glanhau ac, i'r graddau y mae'n briodol, sterileiddio nodwyddau, offerynnau, gemwaith, deunyddiau a chyfarpar*

**5)** Er mwyn sicrhau bod nodwyddau, offerynnau, gemwaith, deunyddiau a chyfarpar sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â thriniaeth yn cael eu glanhau ac, i'r graddau y mae'n briodol, eu sterileiddio, rhaid i weithredwr sicrhau—

(i) bod unrhyw gŵn, mantell neu ddilledyn amddiffynnol arall, papur neu orchudd arall, tywel, lliain neu unrhyw beth arall o'r fath sy'n cael ei ddefnyddio yn ystod y driniaeth—

(a) yn lân ac mewn cyflwr da ac, i'r graddau y mae'n briodol, yn sterilaidd;

(b) heb gael ei ddefnyddio o'r blaen mewn cysylltiad â chleient arall oni bai ei fod wedi ei ffurfio o ddefnydd y mae modd ei lanhau, ac sydd wedi ei lanhau'n iawn ac, i'r graddau y mae'n briodol, ei sterileiddio'n iawn.

(ii) bod unrhyw nodwydd, rasel [raser] neu eitem finiog arall sy'n cael ei defnyddio mewn triniaeth yn un untro a thafladwy;

(iii) bod unrhyw nodwydd untro, offeryn metel, neu offeryn neu gyfarpar arall sy'n cael ei defnyddio neu ei ddefnyddio mewn triniaeth neu ar gyfer trafod nodwydd, offeryn neu gyfarpar o'r fath ac unrhyw ran o offeryn tyllu hylan sy'n cyffwrdd â chleient yn sterilaidd;

(iv) mai dim ond raseli [raserau] diogel untro tafladwy a gaiff eu defnyddio;

(v) os yw jeli petrolewm neu gel iro i'w roi ar groen cleient, bod digon ar gyfer un cleient yn unig yn cael ei gymryd o'r cynhwysydd stoc ar sbatwla glân a'i osod mewn cynhwysydd a gaiff naill ai ei waredu ar ddiwedd pob triniaeth neu ei lanhau a'i sterileiddio cyn cael ei ailddefnyddio;

(vi) bod bandiau elastig neu fagiau plastig sy'n cael eu defnyddio ar beiriannau tatŵio yn cael eu gwaredu ar ôl pob cleient;

(vii) bod unrhyw emwaith sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer tyllu cosmetig ag offeryn tyllu hylan yn sterilaidd;

(viii) mai dim ond pigment anadweithiol sterilaidd sydd wedi ei ddosbarthu i botiau untro neu sydd wedi ei ragbecynnu mewn ffiolau untro a gaiff ei ddefnyddio at ddibenion tatŵio neu liwio croen yn lled barhaol;

(ix) bod unrhyw gynhwysydd sy'n cael ei ddefnyddio i ddal lliw i datŵio neu i liwio croen yn lled barhaol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer un cleient yn unig a'i waredu ynghyd ag unrhyw bigment sydd heb gael ei ddefnyddio ar ddiwedd pob triniaeth.

**6)** Er mwyn sicrhau bod nodwyddau, offerynnau, gemwaith, deunyddiau a chyfarpar sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â thriniaeth yn cael eu glanhau ac, i'r graddau y mae'n briodol, eu sterileiddio, rhaid i berchennog ddarparu—

(i) cyfleusterau digonol a chyfarpar digonol ar gyfer—

(a) glanhau a diheintio, gan gynnwys sinc pob pwrpas a chanddo gyflenwad digonol a chyson o ddŵr poeth [twym] ac oer rhedegog ar y fangre sydd ar wahân i'r basn golchi dwylo sy'n ofynnol o dan Is-ddeddf 8(i). Dylai'r sinc pob pwrpas hwn gael ei leoli y tu allan i'r man trin pryd bynnag y bydd yn bosibl; a

(b) sterileiddio, oni bai mai dim ond eitemau sydd wedi eu rhagsterileiddio sy'n cael eu defnyddio. Rhaid i bob cyfarpar sterileiddio gael ei drin a'i gynnal a'i gadw fesul cyfnod priodol a'i brofi bob hyn a hyn gan y gweithredwr i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithredu'n effeithlon. Rhaid i gofnodion cylchredau cynnal a chadw, trin, profi a gweithredu gael eu cadw ar y fangre tan y dyddiad sy'n dod chwe mis ar ôl i'r cyfarpar gael ei ddinistrio neu ei waredu.

(ii) pwyntiau nwy digonol a diogel ac allfeydd socedi trydan digonol a diogel;

(iii) man storio glân ac addas sy'n osgoi halogi'r pethau, y nodwyddau, yr offerynnau a'r cyfarpar a grybwyllwyd yn Is-ddeddf 5(i), (ii), (iii), (iv), (v), (vi), (vii), (viii) a (ix).

*Glendid Gweithredwyr*

**7)** Er mwyn sicrhau glendid y gweithredwyr, rhaid i berchennog sicrhau bod gweithredwr—

(i) yn cael hyfforddiant am dechnegau hylan priodol i ddadhalogi dwylo ac yn golchi ei ddwylo yn union cyn rhoi triniaeth i unrhyw gleient;

(ii) yn cadw ei ddwylo a'i ewinedd yn lân ac yn cadw ei ewinedd yn fyr ac yn rhydd rhag unrhyw farnais ewinedd, addurn ewinedd neu unrhyw ffurf ar orchudd ewinedd;

(iii) yn cadw unrhyw friw agored ar ran noeth o'r corff o dan orchudd anhydraidd effeithiol;

(iv) yn gwisgo menig llawfeddygol tafladwy sy'n ffitio'n iawn ac nad ydynt wedi cael eu defnyddio o'r blaen gyda chleient arall, oni bai ei fod yn rhoi aciwbigiadau mewn amgylchiadau gwahanol i'r rhai sy'n cael eu disgrifio yn Is-ddeddf 10;

(v) yn gwisgo gŵn, mantell neu ddilledyn amddiffynnol sy'n lân ac yn olchadwy, ac, i'r graddau y mae'n briodol, yn sterilaidd, neu fel arall yn orchudd tafladwy nad yw wedi ei ddefnyddio o'r blaen mewn cysylltiad â chleient arall;

(vi) yn ymatal rhag ysmygu neu fwyta neu yfed yn y man trin.

8) Yn ddarostyngedig i Is-ddeddf 9, er mwyn sicrhau glendid y gweithredwyr, rhaid i berchennog ddarparu—

(i) basnau golchi dwylo addas a digonol sydd â thapiau nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw ac sydd wedi eu lleoli'n briodol at ddefnydd gweithredwyr yn unig, gan gynnwys cyflenwad digonol a chyson o ddŵr poeth [twym] ac oer glân, hylif sebon a thywelau papur wedi eu storio mewn cyflenwr sydd wedi ei osod ar wal wrth ymyl y basn golchi dwylo. Dylai cyfarwyddiadau golchi dwylo gael eu harddangos yn glir wrth fasnau o'r fath;

(ii) lle glanweithiol addas a digonol ar gyfer gweithredwyr.

9) Os yr unig driniaeth y mae gweithredwr yn ei chyflawni yw tyllu llabed neu gartilag gwastad uchaf y glust gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan a bod perchennog yn darparu naill ai gel hylan i'r llaw neu hylif glanhau, nid oes angen i'r basnau golchi dwylo y mae'r perchennog yn eu darparu fod at ddefnydd y gweithredwr yn unig.

10) Rhaid i berchennog sicrhau mai dim ond gweithredwr sydd wedi golchi ei ddwylo yn union cyn gwneud gwaith aciwbigo ar unrhyw gleient sy'n cael gwneud y gwaith hwnnw. Pan fydd gweithredwr yn rhoi aciwbigiadau, rhaid i'r perchennog sicrhau bod y gweithredwr yn gwisgo menig llawfeddygol tafladwy sy'n ffitio'n iawn ac sydd heb gael eu defnyddio o'r blaen gyda chleient arall—

(i) os yw'r cleient yn gwaedu neu os oes ganddo friw agored ar ran noeth o'i gorff; neu

(ii) os yw'n hysbys bod y cleient wedi ei heintio â feirws sy'n cael ei gludo yn y gwaed; neu

(iii) os oes gan y gweithredwr friw agored ar ei law; neu

(iv) os yw'r gweithredwr yn trafod eitemau a all fod wedi eu halogi â gwaed neu hylifau corfforol eraill.

11) Dylai unigolyn sydd wedi ei gofrestru'n unol ag adrannau 14 (aciwbigo) neu 15 (tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) o'r Ddeddf ac sy'n ymweld â phobl pan fyddant yn gofyn iddo wneud hynny i roi triniaeth iddynt gadw at y gofynion yn is-ddeddfau 5(i) a 7(i) sy'n ymwneud â gweithredwr.

12) Mae'r is-ddeddfau canlynol sy'n ymwneud â thyllu clustiau ac electrolysis, tatŵio ac aciwbigo, a gafodd eu cyflwyno gan Gyngor Bwrdeistref Taf-elái, Cyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda a Chyngor Bwrdeistref Cwm Cynon, wedi'u diddymu erbyn hyn.

| Pwnc | Cyflwynwyd gan | Dyddiad cyflwyno | Cadarnhawyd gan | Dyddiad cadarnhau |
|---|---|---|---|---|
| Tyllu clustiau ac electrolysis | Cyngor Bwrdeistref Taf-elái | 13/05/1987 | Ddim yn gwybod | Ddim yn gwybod |
| Tyllu clustiau ac electrolysis | Cyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda | 25/06/1993 | Y Swyddfa Gymreig | 21/01/1994 |
| Tyllu clustiau ac electrolysis | Cyngor Bwrdeistref Cwm Cynon | 28/02/1984 | Y Swyddfa Gymreig | 01/07/1984 |
| Tatŵio | Cyngor Bwrdeistref Cwm Cynon | 13/05/1987 | Ddim yn gwybod | Ddim yn gwybod |
| Tatŵio | Cyngor Bwrdeistref Cwm Cynon | 28/02/1984 | Y Swyddfa Gymreig | 01/07/1984 |
| Tatŵio | Cyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda | 25/06/1993 | Y Swyddfa Gymreig | 21/01/1994 |
| Aciwbigo | Cyngor Bwrdeistref Taf-elái | 13/05/1987 | Ddim yn gwybod | Ddim yn gwybod |

Mae'r is-ddeddfau uchod wedi eu cadarnhau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan adran 6 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

ar **23 Mawrth 2016** ac yn dod yn weithredol ar **1 Mehefin 2016**

Llofnod:

o dan awdurdod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

## SYLWCH – NID YW'R CANLYNOL YN RHAN O'R IS-DDEDDFAU

Rhaid i berchenogion gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn y fangre yn cydymffurfio â'r is-ddeddfau hyn. Mae adran 16(9) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn darparu bod rhaid i unigolyn cofrestredig beri i gopi o'r is-ddeddfau hyn a chopi o unrhyw dystysgrif gofrestru sydd wedi ei rhoi iddo o dan Ran VIII o'r Ddeddf gael eu harddangos mewn lle amlwg yn y fangre. Bydd y sawl sy'n mynd yn groes i adran 16(9) yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy na fydd yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol (gweler adran 16(10)).

Mae adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 hefyd yn darparu y bydd unrhyw un sy'n mynd yn groes i'r is-ddeddfau hyn yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Os caiff unigolyn a gafodd ei gofrestru o dan Ran VIII o'r Ddeddf ei ddyfarnu'n euog o fynd yn groes i'r is-ddeddfau hyn, caiff y Llys, yn lle gosod dirwy neu'n ychwanegol at wneud hynny, orchymyn bod cofrestriad yr unigolyn hwnnw'n cael ei atal neu ei ddiddymu. Caiff llys sy'n gorchymyn bod cofrestriad unigolyn i'w atal neu i'w ddiddymu orchymyn hefyd bod cofrestriad y fangre lle y cyflawnwyd y tramgwydd, os yw'r fangre honno wedi ei meddiannu gan yr unigolyn a gafwyd yn euog o'r tramgwydd, i'w atal neu i'w ddiddymu. Mae'n amddiffyniad i'r sawl sydd wedi ei gyhuddo o dan is-adrannau perthnasol adran 16 brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r tramgwydd.

Nid oes dim yn yr is-ddeddfau hyn yn rhychwantu ymarfer aciwbigo, na busnes tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig nac electrolysis gan unigolyn sydd wedi ei gofrestru'n ymarferydd meddygol cofrestredig, neu o dan oruchwyliaeth unigolyn o'r fath, nac yn rhychwantu mangre lle y mae ymarfer aciwbigo, neu fusnes tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis yn cael ei gyflawni gan unigolyn o'r fath neu o dan ei oruchwyliaeth.

Nid oes dim yn yr is-ddeddfau hyn yn rhychwantu'r ymarfer o aciwbigo gan unigolyn sydd wedi ei gofrestru'n ddeintydd neu o dan ei oruchwyliaeth, nac yn rhychwantu mangre lle y mae ymarfer aciwbigo yn cael ei gyflawni gan unigolyn o'r fath, neu o dan ei oruchwyliaeth.

Y darpariaethau deddfwriaethol sy'n berthnasol i aciwbigo yw'r rheini yn adran 14. Y darpariaethau sy'n berthnasol i driniaeth nad yw'n aciwbigo yw'r rheini yn adran 15.

Mae'r gwahaniaethau allweddol yn y modd y mae'r gofynion yn gymwys mewn cysylltiad â'r amrywiol driniaethau fel a ganlyn:

*Mae'r cyfeiriadau yn y testun rhagarweiniol at ddarpariaethau adran 14 (aciwbigo) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982* **yn gymwys i aciwbigo'n unig.**

*Nid yw'r cyfeiriadau yn y testun rhagarweiniol at ddarpariaethau adran 15 (tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982* **yn gymwys i aciwbigo.**

*Mae'r cyfeiriadau yn Is-ddeddf 1(i) yn y diffiniad o "mangre" at ddarpariaethau adran 14 (aciwbigo)* **yn gymwys i aciwbigo'n unig.**

*Nid yw'r cyfeiriadau yn Is-ddeddf 1(i) yn y diffiniad o "mangre" at ddarpariaethau adran 15 (tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis)* **yn gymwys i aciwbigo.**

*Mae'r gofyniad yn Is-ddeddf 3 i driniaeth gael ei rhoi mewn man trin sy'n cael ei ddefnyddio'n unswydd i roi triniaeth* **yn gymwys i aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis ond nid i dyllu llabed neu gartilag gwastad uchaf y glust drwy ddefnyddio offeryn tyllu hylan.**

*Mae'r gofyniad yn Is-ddeddf 4 bod gan lawr y man trin wyneb anhydraidd llyfn* **yn gymwys i datŵio, lliwio croen yn lled barhaol a thyllu cosmetig ond nid i aciwbigo nac i dyllu llabed neu gartilag gwastad uchaf y glust drwy ddefnyddio offeryn tyllu hylan neu electrolysis.**

*Mae'r gofyniad sy'n ymwneud â bandiau elastig a bagiau plastig yn Is-ddeddf 5(vi)* **yn gymwys i datŵio.**

*Mae'r gofyniad sy'n ymwneud â gemwaith yn Is-ddeddf 5(vii)* **yn gymwys i dyllu cosmetig.**

*Mae'r gofynion sy'n ymwneud â lliw neu gynhwysydd sy'n cael ei ddefnyddio i ddal lliw i'w ddefnyddio ar gyfer triniaeth yn Is-ddeddf 5(viii) a (ix)* **yn gymwys i datŵio a lliwio croen yn lled barhaol.**

*Nid yw'r gofyniad yn Is-ddeddf 7(iv) bod gweithredwr yn gwisgo menig llawfeddygol tafladwy* sy'n ffitio'n iawn *ac nad ydynt wedi cael eu defnyddio o'r blaen gyda chleient arall* **yn gymwys i aciwbigo ac eithrio yn yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd yn Is-ddeddf 10.**

*Mae darpariaethau Is-ddeddf 9 o ran cyfleusterau ymolchi yn* **gymwys i dyllu llabed neu gartilag gwastad uchaf y glust drwy ddefnyddio offeryn tyllu hylan.**

*Nid yw'r is-ddeddfau yn gymwys (i) i driniaeth datŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis sy'n cael ei chyflawni gan neu o dan oruchwyliaeth* **ymarferydd meddygol (adran 15(8) o'r Ddeddf)** *neu (ii) i aciwbigo sy'n cael ei wneud gan neu o dan oruchwyliaeth* **ymarferydd meddygol neu ddeintydd (adran 14(8) o'r Ddeddf).**